TAITH AFON

6

## Gweithgaredd Ymestyn

Rhannwch y dysgwyr mewn I 4 grŵp. Rhowch broblem o'r byd go iawn i bob grŵp a defnyddiwch y ddolen i'r erthygl newyddion ar gyfer y digwyddiad a amlinellir isod.

Grŵp 1 – **Tipio Anghyfreithlon**
https://www.bbc.co.uk/news/articles/ckgn81v485vo
Grŵp 2 – **Arllwysiad Cemegol** https://www.dailymail.co.uk/news/article-1170187/The-river-bubble-bath-Mountain-foam-floats-downstream-suspected-chemical-spill-soap-factory.html
Grŵp 3 – **Carthion** https://www.bbc.co.uk/future/article/20240704-the-wetlands-cleaning-up-the-uks-sewage-pollution
Grŵp 4 – **Amaethyddiaeth**: https://www.mirror.co.uk/news/uk-news/british-rivers-filled-almost-34000-34053164

Sicrhewch eich bod yn dweud wrth eich dysgwyr bod yna duedd yn erthyglau newyddion, felly nid ydynt bob amser yn cynnwys y darlun llawn.

Rhowch 20 munud i'r dysgwyr i ddehongli'r canlynol:
- Pa effaith sydd gan y digwyddiad ar iechyd yr afon? Meddyliwch am ansawdd y dŵr a bywyd gwyllt.
- Sut y gall wedi atal y digwyddiad hwn rhag digwydd?
- Pwy sy'n gyfrifol am atal hyn rhag digwydd eto?

Cyfarwyddwch y dysgwyr y byddan nhw'n cyflwyno eu canfyddiadau i'r dosbarth. Dewiswch ddull rydych yn meddwl sydd orau ar gyfer eich dysgwyr chi (posteri, cyflwyniadau, sgriptiau ac ati) ac enwebwch siaradwr, recordydd ac ymchwilydd o fewn y grŵp os oes angen.

Awgrymiadau adborth – pan fydd digwyddiad fel yr uchod yn digwydd, mae hyn fel arfer oherwydd nifer o ffactorau. Gallwch annog y dysgwyr i feddwl yn feirniadol trwy ofyn iddynt ystyried yr holl randaliad sy'n ynghlwm, er enghraifft:

- Perchnogion tir (Yn gyfrifol am sut maent nhw'n rheoli eu tir)
- Y Llywodraeth (Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am reolau ag deddfwriaethau)
- Cyrff Rheoleiddio (Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r rheoleiddion amgylcheddol)
- Y Cyhoedd (Rydyn ni bob unigolyn yn gyfrifol am ofalu am yr amgylchedd)